# PWYLLGOR ARDAL DWYFOR 18-03-13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes, (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr :**, Stephen Churchman, Anwen Davies, Aled Evans, Gweno Glyn Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Michael Sol Owen, Llywarch Bowen Jones, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Angela Ann Russell, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams, R.H. Wyn Williams a Robert J. Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Aled Davies, (Pennaeth Rheoleiddio), Dafydd P. Lewis, (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Wyn Williams, (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Eluned Williams, (Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol Adran Addysg), Llinos Roberts, (Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol), Bethan Rowlands, (Cydlynydd Cludiant), Rhian Williams, (Swyddog Cludiant), Janet Roberts, (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Darren H. Griffiths, (Rheolwr Cynllunio Strategol) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod**:- Y Cynghorydd Paul Thomas, (Aelod Cabinet – Gwynedd Iach), Sarah Green a Howard Tolley o gwmni 'Just Solutions Leisure Consultants)

**Ymddiheuriadau :** Y Cynghorydd Peter Read.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. GWASANAETHAU CLUDIANT CYHOEDDUS A CHLUDIANT ADDYSG ARDAL DWYFOR

a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio, a dosbarthwyd mapiau'n dangos llwybrau bysiau ysgol Dwyfor cyn ac ar ôl yr ail dendro. Yn ogystal cyflwynwyd gwybodaeth ysgrifenedig i'r aelodau yn amlinellu'r newidiadau yng ngwasanaeth addysg Ardal Dwyfor yn 2013.
'Roedd y rhain yn gysylltiedig â rhai newidiadau yn y gwasanaethau i Goleg Meirion Dwyfor a'r ysgolion canlynol :-

- Ysgol Sarn Bach;
- Ysgol Botwnnog;
- Ysgol Pentreuchaf;
- Ysgol Eifionydd;
- Ysgol Nefyn;

b) Nododd y Pennaeth ei fod yn deall pryder rhieni, athrawon a'r aelodau, ond credai ei bod yn deg dweud fod lefelau'r newidiadau'n llawer is nag yr oedd llawer yn ofni o safbwynt cludiant cyhoeddus a chludiant addysg.

c) Esboniwyd bod angen cael cadarnhad gan rai cwmnïau eu bod am dderbyn cynigion, ond ar sail y wybodaeth oedd ar gael gellid dweud bod

69% o'r gwasanaethau cyhoeddus yn aros hefo'r un darparwyr gyda 100% o'r tendrau, os ydynt yn cael eu derbyn yn eu ffurf bresennol, yn mynd i gwmnïau lleol.

O safbwynt cludiant addysg, nodwyd bod 55% o'r cytundebau bysiau sydd wedi cael eu tendro, yn aros hefo'r un darparwyr, a chyda'r gwasanaeth addysg hefyd bydd 100% o'r tendrau, os ydynt yn cael eu derbyn yn eu ffurf bresennol, yn mynd i gwmnïau lleol.
Cyfeiriwyd hefyd at rai newidiadau megis gwasanaeth bws yn newid i dacsis ac ati.

Esboniodd y Pennaeth fod yr hyn oedd yn cael ei gyfleu yn y mapiau yn cyfeirio at gontractau bwriadedig os derbynnir hwy gan y cwmnïau lleol. Ychwanegodd eu bod yn adlewyrchu elfen fechan iawn o newidiadau o ystyried nifer y contractau, nifer y plant a nifer yr ysgolion.

Nodwyd y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Adran Addysg ynglŷn â'r modd o ddatrys unrhyw broblemau fyddai'n deillio o'r newidiadau. Yn yr un modd, byddai trafodaethau'n cael eu cynnal o safbwynt dyddiad cychwyn rhai contractau.

ch) Mynegwyd pryder gan aelodau ynglŷn â'r amserlen gaeth a phwysleisiwyd y dylai rhieni gael gwybodaeth lawn, mewn da bryd, o ran yr holl newidiadau.

d) Yn ogystal 'roedd aelodau'n anfodlon bod unrhyw newid yn cael ei gyflwyno i'r cludiant addysg yn ystod blwyddyn ysgol a nodwyd ganddynt fod hyn yn groes i ganllawiau cenedlaethol y Cynulliad. 'Roedd aelodau o'r farn y byddai gohirio pob newid yn creu cyfle i ymgynghori gyda'r ysgolion, rhieni a'r disgyblion.

dd) Mewn ymateb nodwyd y dylid ystyried maint y newid. Er enghraifft, esboniwyd y gallai'r newid olygu cyn lleied â chwmni gwahanol yn darparu'r gwasanaeth, neu amser taith y bws yn newid o ychydig funudau.
Mewn sefyllfaoedd lle mae'r newid yn fwy sylweddol, esboniwyd y gellir cynnal trafodaethau hefo'r Adran Addysg a chytuno ar ffyrdd o ddatrys problemau hyd ddiwedd y flwyddyn ysgol.

e) Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd na ellid rhoi gwybodaeth ar hyn o bryd ynglŷn â'r nifer o blant allai fod yn cerdded rhan o'r daith neu'r cyfan o'r daith i'r ysgol. Ychwanegwyd fod hyn yn dibynnu ar sawl peth gan gynnwys maint bysiau fyddai cwmnïau'n dewis eu defnyddio a'r posibilrwydd o allu defnyddio'r cynllun seddi gweigion.

Esboniwyd ymhellach y bydd modd i rieni ddatgan pryder os ydynt o'r farn bod eu plant yn gorfod cerdded hyd ffyrdd peryglus. Bryd hynny gallant wneud cais am asesiad risg.

f) Mynegwyd pryder gan aelodau parthed y bwriad i gyflwyno newidiadau ar 1 Ebrill, 2013.  Tanlinellwyd hyn gan aelod a gyfeiriodd at y bwriad i ddod â gwasanaeth pnawn ar gyfer Ysgol Sarn Bach i ben. Cyfeiriodd at ddymuniad trigolion lleol i gynnal cyfarfod cyhoeddus ac at y prysurdeb hyd y ffyrdd dan sylw yn ystod yr haf. Pwysleisiodd nad oedd amser i'r materion yma gael sylw teg.

g) Mewn ymateb i ymholiadau pellach nodwyd :

- mai'r côd post gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â'r rhai sy'n deilwng o gludiant addysg. Golyga hyn fod y daith yn cael ei mesur o ddrws y tŷ i'r ysgol;
- bod y sefyllfa ynglŷn â disgyblion all-dalgylch Efailnewydd, sy'n teithio i Ysgol Pentreuchaf ar hyn o bryd, wedi cael ystyriaeth lawn a bod y gwasanaeth wedi cysylltu â'r holl rieni. Pe byddai newidiadau yno'n cael eu hystyried yn rhai sylfaenol, byddai angen cysylltu hefo'r Adran Addysg er mwyn cael trefniant derbyniol dros dro.
- nad oedd yr asesu wedi ei gwblhau ond bod disgwyl i fanylion pellach ynglŷn â'r cwmnïau fyddai'n derbyn cynigion a'r defnydd a ellid ei wneud o'r cynllun seddi gweigion fod ar gael o fewn ychydig ddyddiau.

ng) Pwysleisiodd aelodau bod rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant a chytunwyd, drwy bleidlais, a oedd bron yn unfrydol, i ddatgan dymuniad i ohirio unrhyw newid i'r cludiant addysg yn Ardal Dwyfor hyd fis Medi 2013. Nodwyd y byddai hyn yn caniatáu amser i ymgynghoriad llawn gael ei gynnal.

**3. CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR 2013-2017**

a) 'Roedd bwriad i gynnal sesiwn ryngweithiol ar Gynllun Strategol y Cyngor, ac yr oedd yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi ynghyd â'r Rheolwr Cynllunio Strategol yn bresennol i arwain y drafodaeth.

b) Mynegwyd pryder gan rai aelodau gan nad oeddynt wedi derbyn copi o'r o'r ddogfen ymgynghorol yn dangos blaenoriaethau drafft y Cyngor ar gyfer 2013-2017. Pwysleisiwyd ganddynt y dylai copi o'r ddogfen fod wedi ei hanfon atynt gyda rhaglen y cyfarfod.

c) Nodwyd gan swyddogion ac aelodau eraill fod sesiwn eisoes wedi ei gynnal fel y gallai holl aelodau'r Cyngor ystyried y ddogfen a bod cyflwyno eitem gerbron Pwyllgorau Ardal yn creu cyfle pellach iddynt leisio barn.
Yn ogystal, 'roedd copïau o'r ddogfen ar gael i'w dosbarthu yn y cyfarfod.

ch) Fodd bynnag, nododd rhai aelodau nad oedd gwybodaeth ddigonol ganddynt ar gyfer trafod mater oedd yn cael ei ystyried yn holl bwysig.

d) Rhybuddiwyd bod yr amserlen yn gaeth, ond cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod pellach ar 27 Mawrth ar gyfer ystyried y ddogfen yn drylwyr.

**4. ADOLYGIAD DIGONEDD O WASANAETH HAMDDEN**

a) Gosodwyd y cyd-destun gan yr Aelod Cabinet – Gwynedd Iach, y Cynghorydd Paul Thomas.
Esboniodd fod Cwmni 'Just Solutions' yn cynnal arolygiad ar hyn o bryd ar ran yr Adran Gwynedd Iach, yn asesu cyfleoedd hamdden o fewn Gwynedd gyda'r bwriad o'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
Ychwanegodd fod yr Adran yn ceisio cymryd safbwynt llawer mwy rhagweithiol i gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth. Fodd bynnag, nododd fod angen ymateb i her y sefyllfa ariannol sy'n bodoli, ac mai'r bwriad oedd ceisio uno hyn hefo'r angen i warchod a gwella iechyd y boblogaeth.

Ychwanegodd fod cynrychiolwyr cwmni 'Just Solutions' yn bresennol i gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith ac i wrando ar farn a syniadau'r aelodau.

b) Amlinellwyd cefndir yr arolygiad gan gynrychiolwyr y cwmni a nodwyd y byddai'r gwaith yn ymdrin â sut mae'r Cyngor yn gweithredu yn y maes hamdden, y polisïau sy'n bodoli ac ati. Ymhellach, bydd cryn sylw'n cael ei roi i'r hyn sy'n addas ar gyfer gwahanol gymunedau, yr hyn sy'n bodoli yno eisoes a sut y gellir eu gwarchod a'u gwella.

c) Ychwanegwyd fod trafodaethau wedi cychwyn gydag amrywiol sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r maes hamdden. Mae disgwyl i'r adroddiad cyntaf gael ei chyflwyno ym mis Ebrill, gydag adroddiad pellach yn cael ei darparu erbyn mis Mai.

ch) Mewn ymateb i sylwadau agoriadol gan aelodau nodwyd mai'r bwriad oedd cydweithio hefo cymunedau yn hytrach na phwyso'n ormodol arnynt. Pwysleisiwyd gan y cynrychiolwyr fod cyfleusterau'n holl bwysig ac mai bwriad y gwaith yw darganfod datrysiadau na fydd yn golygu cau canolfannau.
Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw golledion ariannol a sut y gellir eu goresgyn, ehangu cyfleoedd a denu pobl i ddefnyddio'r canolfannau.

d) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gwnaed y prif bwyntiau canlynol ganddynt:-

- bod angen creu cyfleoedd i sawl carfan o fewn y gymuned, megis plant a phobl hŷn, gyda gweithgareddau'n cael eu darparu ar eu cyfer mewn mannau cyfleus, gan gynnwys neuaddau pentref;
- bod angen targedu'r maes awyr agored yn hytrach na chyfyngu'r gweithgareddau i ganolfannau hamdden;
- bod marchnata yn holl bwysig ac y dylid creu ychwaneg o weithgareddau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd yn effeithiol;
- bod angen bod yn uchelgeisiol a manteisio'n llawn ar natur yr ardal gan ymestyn y gweithgareddau dan sylw i gynnwys pethau fel :- teithiau cerdded, mynydda, plymio a hwylfyrddio;
- bod diffyg menter yn amlwg, a bod angen marchnata pethau unigryw, fel llwybr yr arfordir.

dd) Ategwyd y sylwadau'n llawn gan gynrychiolwyr y cwmni, a nodwyd ganddynt fod gwell adnoddau a gwell gwasanaeth yn golygu arbediad ariannol.

e) Diolchwyd i'r cynrychiolwyr ac i'r Aelod cabinet am fynychu'r cyfarfod, a dymunwyd yn dda iddynt gyda'r gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.15pm a daeth i ben am 8.05pm